08.10.2020

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Iolo'n ein helpu i werthfawrogi byd natur yr Hydref

O liwiau tanllyd y coed i darth arallfydol y wawr, y cynhaeaf ffrwythlon a'r barrug cyntaf, mae'n wir i ddweud fod yr hydref yn dymor llawn hud. Ond mae'n hawdd meddwl fod bywyd gwyllt yn mynd i gysgu wedi i'r haf ddod i ben.

Yn ei gyfres newydd, **Hydref Gwyllt Iolo**, sy'n dechrau ar 20 Hydref, bydd y naturiaethwr Iolo Williams yn ein helpu i ddarganfod fod tymor mwyaf lliwgar y flwyddyn hefyd yn gyfnod prysur i fyd natur. Cawn ein tywys i wahanol gynefinoedd yn rhai o'i hoff lefydd yng Nghymru i weld yr amrywiaeth o anifeiliaid sydd i'w canfod.

Bydd pob rhaglen yn canolbwyntio ar gynefin arbennig; yr ucheldir, coedlannau, afonydd, gwlypdiroedd yn ogystal a'r lleoliadau annisgwyl fel parciau dinesig a'r gerddi cefn.

Yn y rhaglen gyntaf, yr arfordir fydd yn cael sylw Iolo, wrth iddo ymweld ag Ynys Lawd ger Caergybi, Bae Cemlyn; traeth Lafan ger Bangor; Y Gogarth, ger Llandudno; Afon Nyfer ger Trefdraeth, a'r Afon Llwchwr ger Llanelli a llawer mwy.

"Mae'r hydref yn dymor tlws ofnadwy, ond mae pobl yn anghofio bod cymaint o fywyd gwyllt o'n cwmpas hefyd" meddai Iolo, sy'n byw yn Llandyssil rhwng y Drenewydd a'r Trallwng ym Maldwyn.

"'Dan ni'n licio'r gwanwyn a'r haf; da'n ni'n gwybod bod yr adar yn canu ac ati, ac er bod yr adar wedi tawelu, tydi hynny ddim yn golygu nad oes 'na rai o gwmpas. Base pobl yn synnu dwi'n meddwl faint o fyd natur sydd ar eu prysuraf fis Hydref – ceirw'n bridio, morloi yn rhoi genedigaeth i'r ifanc ac yn y blaen".

Un o'i uchafbwyntiau tra'n ffilmio'r gyfres oedd ymweliad â Pharc Margam:

"Un peth dwi ddim yn ei weld yn aml ydi ceirw'n cwffio go iawn, achos does ganddon ni ddim gymaint o geirw yng Nghymru ag sydd ganddyn nhw yn yr Alban neu rannau o Loegr" meddai Iolo. "Ac mae bod allan, clywed y sŵn rhuo a'r cyrn yn gwrthdaro yn wefreiddiol. Dyna welson ni ym Mharc Margam, Port Talbot, sy'n profi does dim raid i chi fynd i wylltiroedd Cymru i weld rhywbeth arbennig; mae ein gerddi a'r parciau yr un mor bwysig."

Ac yn y cyfnod hwn o ansicrwydd, lle mae gwerthfawrogi'r hyn sydd gan ein milltir sgwâr i'w gynnig yn fwy pwysig nag erioed, does dim amser gwell ar gyfer cyfres fel hon, yn ôl Iolo:

"Mae byd natur wedi bod mor bwysig i bobl yn ystod y saith mis diwethaf 'ma, gyda'r cyfnod clo ac ymbellhau" meddai.

"Mae o wedi helpu rhai sy'n byw ar ben eu hunain, pobl oedd wedi cael eu syrffedu ar gael eu cloi i mewn, ac yn enwedig pobl efo salwch meddyliol. Mae gymaint mwy o bobl wedi sylwi ar ieir bach yr haf yn yr ardd, a'r adar yn canu, draenogod yn dod i'w gerddi yn y nos, ac mae

hynny’n un peth positif i ddod allan o gyfnod mor anodd. Roedd yn bwysig iawn ein bod ni yn y gyfres yma’n mynd i ystod eang iawn o leoliadau ar hyd a lled Cymru, fel bod pobl yn meddwl ‘alla i bicio allan i weld hwnna rŵan.

**Hydref Gwyllt Iolo**
**Nos Fawrth, 20 Hydref, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Aden ar gyfer S4C**

08.10.2020

Heledd Williams
Cyswllt ContactMae
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Iolo helping us to appreciate Autumn's natural wonders

From the fiery colours of the trees to the supernatural dawn mist, the fruitful harvest and the crisp first frost, it's true to say that autumn is a magical season. But it's easy to think that wildlife goes to sleep after the summer is over.

In his new series, **Natur Gwyllt Iolo** (Iolo's Wild Autumn), which starts on 20 October, naturalist Iolo Williams will help us discover that the most colourful season of the year is also a busy time for nature. We will be led to different habitats in some of his favourite places in Wales to see the variety of animals that can be found.

Each programme will focus on a specific habitat; uplands, forests, rivers, wetlands as well as unexpected places such as urban parks and back gardens.

The first episode, Iolo takes a look at the coast, as he visits South Stack near Holyhead, Cemlyn Bay; Lafan beach near Bangor; the Great Orme, near Llandudno; The River Nevern near Newport, the River Llwchwr near Llanelli and many more.

"Autumn is an extremely beautiful season, but people forget that there is so much wildlife around too," says Iolo, who lives in Llandyssil between Newtown and Welshpool.

"We like spring and summer; we know the birds are singing and so on, and even though the birds have quietened, that doesn't mean there aren't any around. It's surprising how much of nature is at its busiest in October - deer mating, seals giving birth to their young and so on".

One of Iolo's highlights while filming the series was a visit to Margam Park:

"One thing I don't often see is deer fighting, because we don't have as many deer in Wales as they have in Scotland or parts of England," says Iolo. "And being out, hearing the roaring noise and the horns collide is thrilling. That's what we saw in Margam Park, Port Talbot, proving that you don't have to go to into the wild to see something special; our gardens and parks are equally as important."

And in this time of uncertainty, where appreciating what we have on our doorstep is more important than ever, there's no better time for a series like this, according to Iolo:

"Nature has been so important to people over the past seven months, with lockdown and social distancing" he said.

"It has helped those who live alone, people who have been fed up of being locked in, and especially people with mental health issues. So many more people have noticed butterflies, birds singing, hedgehogs coming to their gardens at night, and that's one positive thing to come out of such a difficult time. It was very important that we in this series went to a very wide range of locations across Wales, so that viewers can think 'I'll head out to see that'.

**Hydref Gwyllt Iolo**
**Tuesday, 20 October 9.00, S4C**
**English subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms.**
**An Aden production for S4C**